Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gymraeg Brynsierfel
## Dwyfor
## Llwynhendy
## Llanelli
## Sir Gaerfyrddin
## SA14 9HD

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Brynsierfel ym mhentref Llwynhendy, sydd ychydig filltiroedd o dref Llanelli yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 206 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 12 oed meithrin rhan-amser.

Tros dreigl tair blynedd, mae ychydig o dan 21% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Tua 12% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 34% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2010 a phenodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Ionawr 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn hynod gartrefol ac mae’r ystafelloedd dosbarth a’r coridorau yn lliwgar ac yn fannau ysgogol a difyr lle gall pob disgybl ddysgu’n gynhyrchiol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel iawn o safbwynt lles a chynnydd academaidd y disgyblion er mwyn galluogi bron pob un ohonynt i wneud cynnydd cadarn a chyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae’r pennaeth a’r dirprwy wedi creu tîm cydwybodol o staff ar bob lefel, sy’n darparu profiadau dysgu hynod ddiddorol ac amrywiol i’r disgyblion ac sy’n dangos parch a gofal parhaus iddynt. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymroi'n llwyr i'w tasgau gan ddangos brwdfrydedd egnïol tuag at eu gwaith. Un o nodweddion arwyddocaol yr ysgol yw’r ffordd hynaws y mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion ymlacio’r corff a’r meddwl ar ddechrau sesiynau yn ystod y dydd. Mae hyn yn eu helpu i anghofio am unrhyw bryderon sydd ganddynt a’u galluogi i ganolbwyntio’n glir ar eu dysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl athrawon yn cywiro gwallau mewn iaith lafar Cymraeg disgyblion yn barhaus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhelliad o’r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar y ffordd hynaws y mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion i ymlacio’r corff a’r meddwl ar ddechrau sesiynau fel eu bod yn barod i ddysgu, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol â medrau cyfathrebu neu fedrau rhifedd ar y lefelau sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf ar lefelau sy'n llawer is na'r disgwyl. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog yn erbyn eu targedau ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae medrau gwrando disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n hynod effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau mewn gwasanaethau yn ogystal ag ar ei gilydd ac ar eu hathrawon yn eu dosbarthiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin yn dod i siarad Cymraeg yn fuan iawn. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn mynegi eu hunain yn hynod hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o eiriau sy'n ymwneud â'r thema. Maent yn datblygu eglurder wrth siarad, gan amrywio tôn a goslef y llais yn grefftus, ac yn addasu'r iaith yn llwyddiannus ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus yn y ddwy iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn cyflwyno gwybodaeth, yn ymateb yn glir mewn sgyrsiau, ac yn defnyddio geirfa gynyddol gymhleth. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hynod ddealladwy, gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau gyda mesur da o gywirdeb. Fodd bynnag, mae cystrawen a mynegiant y lleiafrif ychydig yn wallus ac maent yn camdreiglo ac yn defnyddio ambell air Saesneg wrth siarad Cymraeg.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda iawn. Maent yn dethol deunyddiau darllen yn annibynnol, gan gynnig rhesymau dilys am eu dewis. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da iawn mewn darllen yn y ddwy iaith. Maent yn mynegi barn am gymeriadau ac agweddau ar arddull yn gynyddol huawdl. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn ddarllenwyr annibynnol sy'n cywain, galw i gof a threfnu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn gwbl annibynnol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n hynod gadarn. Yn y dosbarth derbyn, maent yn ysgrifennu ystod effeithiol o frawddegau syml am drychfilod, gan atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau diddorol yn hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Mae llawer yn ysgrifennu storïau estynedig dychmygol yn annibynnol fel Stori Matilda neu adroddiad papur newydd am hanes y Blaidd Mawr Cas Llwglyd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n gynyddol fyfyrgar a dychmygus yn y ddwy iaith, gan ddangos gafael sicr ar ffurf. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau, fel disgrifiad o fywyd mewn pyllau glo mewn gwers hanes. Yn aml, maent yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion i greu effeithiau, fel "... *then he ran as fast as his legs would take him ... he was terrified, he was defenceless*" mewn stori ddychmygol Saesneg ym Mlwyddyn 6.

Mae medrau rhifedd bron pob un yn datblygu'n gadarn iawn ar draws yr ysgol. Mae gan bron pob un ddealltwriaeth gynyddol o werth lle ac maent yn dwyn i gof ffeithiau

mathemategol yn hynod ddidrafferth, ac yn eu cymhwyso’n hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Yn y dosbarth meithrin, mae mwyafrif y disgyblion yn ffurfio’u rhifau yn gywir hyd at 5 tra bod y goreuon yn y dosbarth derbyn yn trefnu rhifau hyd at 20. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn ac yn eu defnyddio’n greadigol i greu lluniau o gymeriadau i gyd-fynd â’u thema. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r goreuon yn mesur traed eu ffrindiau yn lled gywir ac yn cofnodi’r canlyniadau ar dabl a’u gosod mewn trefn i adnabod pwy sydd â’r traed hiraf a byrraf. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer yn datrys problemau arian yr Oesoedd Canol yn hyderus i gyfrifo tâl gweithwyr, a chost talu am wasanaeth adeiladwr. Maent yn mesur traed dinosor yn gywir ac yna defnyddio fformwla syml i gyfrifo ei daldra. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio’u medrau rhifedd yn hyderus i gyfrifo, er enghraifft sawl gêm hoci fydd angen ei chwarae mewn cynghrair. Maent hefyd wedi llwyddo mewn heriau marchnata a thrin arian, wrth greu, prisio a gwerthu addurniadau i wneud elw yn y ffair Nadolig.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf yn datblygu’n gadarn iawn. Maent yn datblygu rheolaeth fedrus ar gyfrifiaduron a llechi electronig, ac yn eu defnyddio’n bwrpasol iawn. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob un yn datblygu ystod o fedrau’n llwyddiannus iawn ac yn ymateb yn gadarnhaol i her o gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffurfiau ac i greu animeiddiadau syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn adeiladu’n effeithiol ar eu dysgu blaenorol ac yn defnyddio’u medrau technolegol yn gwbl naturiol, ac yn gynyddol annibynnol a hyderus i gefnogi’u gwaith mewn pynciau eraill. Maent wedi cofnodi symudiadau gwenyn yn hynod effeithiol wrth astudio’r thema ‘Mêl’ ac maent yn defnyddio taenlenni a fformiwlâu yn gywir i drefnu data yn seiliedig ar lwyddiant timau hoci iâ.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel iawn yno. Maent yn frwdfrydig am fynychu’r ysgol ac mae llawer yn edrych ymlaen yn eiddgar at fore Llun yn wythnosol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w tasgau gan ddangos brwdfrydedd egnïol. Maent yn cydweithio'n hynod lwyddiannus, gan arddangos aeddfedrwydd cadarn wrth gadw ar dasg am gyfnodau estynedig i ddatrys problemau. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn ardderchog. Maent yn aros eu tro, yn gwrando ar farn ei gilydd ac yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion yn gwrtais iawn. Mae hyn yn atgyfnerthu ethos cartrefol a chefnogol yr ysgol, sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol mewn amgylchedd hynod ofalgar.

Mae’r ffordd aeddfed iawn y mae’r disgyblion yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut y maent yn dysgu yn effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn trafod cynnwys eu themâu ac yn creu mapiau meddwl ar ddechrau pob tymor er mwyn ddylanwadu’n uniongyrchol ar y gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac o gadw'n ffit. Maent wedi bod yn ganolog i’r broses o hyrwyddo bocsys bwyd iach gan lythyru rhieni i’w hannog i gynnwys dŵr yn hytrach na diodydd sy’n cynnwys llawer o siwgr. Mae bron pob disgybl yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd cadw’u hunain yn ddiogel ar lein, ac yn trafod peryglon a allai godi mewn modd hynod ddeallus.

Mae'r cynghorau ysgol yn weithgar a llwyddiannus iawn. Mae'r aelodau yn cywain barn eu cyd-ddisgyblion yn rheolaidd, yn trafod eu safbwyntiau yn hynod aeddfed a chall yn eu cyfarfodydd, ac yn darparu adborth buddiol iddynt, maes o law. Maent yn cynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau yn rheolaidd, sy'n cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion rhai sy'n llai ffodus na nhw. Maent yn gwerthu nwyddau y maent wedi eu cynhyrchu yn yr ysgol mewn stondin ym marchnad Llanelli. Mae hyn yn hysbysu'r cyhoedd am y gwaith y maent yn ei wneud ac yn codi proffil yr ysgol o fewn y gymuned yn llwyddiannus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canmol y blwch syniadau, sy'n caniatáu iddynt gynnig gwelliannau am faterion ysgol sy'n bwysig iddyn nhw ynghyd ag unrhyw faterion o bryder sydd ganddynt. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth uniongyrchol iddynt o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol i gefnogi eu lles personol, cymdeithasol ac emosiynol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a gwybodus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o'r amrywiol werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo'n gyson gan yr ysgol. Maent yn egluro pwysigrwydd ymddygiad da ac yn annog eu cyd-ddisgyblion i fod yn garedig ac i ddyfalbarhau yn eu dysgu. Trwy eu gwaith dosbarth a'u dealltwriaeth aeddfed o degwch a chynhwysiant ar draws cymdeithas, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o anghyfiawnder yn y byd ehangach. Mae gan bron pob un ddealltwriaeth gadarn o hawliau plant ar draws y byd ac maent yn falch eu bod wedi ffurfio pum hawl benodol sy'n ganolog i waith Ysgol Gymreg Brynsierfel. Mae hyn yn ganolog i holl weithredoedd yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae gan yr athrawon a'r staff ddull effeithiol iawn o fapio'r cwricwlwm dros gyfnod, sy'n sicrhau cyflawniad ac yn adlewyrchu natur yr ysgol a'i chyd-destun yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio themâu ysgogol sy'n darparu cyfleoedd ardderchog i ddatblygu sgiliau pwnc a medrau allweddol y disgyblion mewn modd systematig a threfnus fesul dwy flynedd. Mae'r profiadau a ddarperir yn eang a chytbwys, ac yn bodloni anghenion bron pob un disgybl yn dda iawn. Mae hyn yn eu galluogi i gaffael y medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh sydd eu hangen arnynt i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm ac i wneud cynnydd cryf a datblygiadol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r cynlluniau tymhorol yn nodi'n glir y medrau i'w datblygu yn ystod y tymor hwnnw. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol iawn o'r rhain i gynllunio'u gwersi ac i arwain yr addysgu ar lawr dosbarth. O oed cynnar, mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd buddiol a chynyddol i gyfrannu at drywyddau penodol sydd o ddiddordeb iddyn nhw ar ddechrau pob thema. Mae athrawon yn datblygu'r cynlluniau tymhorol drwy deilwra tasgau a gweithgareddau yn fedrus yn wythnosol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion o bob gallu a chefndir. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gymorthyddion ac athrawon arbenigol i gefnogi unigolion a grwpiau lle bo'u hangen. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn cyfranogi'n effeithiol mewn gwersi, yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu.

Un o nodweddion arwyddocaol yr ysgol yw'r cyfleoedd effeithiol y mae'r athrawon yn eu darparu i ddisgyblion ymlacio'r corff a'r meddwl ar ddechrau sesiynau dysgu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ac yn barod i ddysgu. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd cyson iddynt fynegi eu teimladau a rhannu unrhyw bryderon sydd

ganddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu lles emosiynol a'u hagweddau at ddysgu. O ganlyniad, mae bron pob aelod staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn ymwybodol o'u hanghenion academaidd a phersonol. Mae hyn yn galluogi athrawon i ddatblygu disgwyliadau realistig ond uchel iawn o'r hyn y gall y disgyblion eu cyflawni. Trwy rannu amcanion dysgu a disgwyliadau yn glir gyda disgyblion ar ddechrau'r sesiynau, maent yn sicrhau eu bod yn deall yn union yr hyn a ddisgwylir oddi wrthyn nhw mewn tasgau.

Mae athrawon yn holi cwestiynau treiddgar yn grefftus iawn, sy'n llwyddo i ymestyn ymatebion y disgyblion yn ardderchog. Mae mwyafrif yr athrawon yn fodelau iaith da. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol ac nid yw'r lleiafrif yn cywiro gwallau llafar disgyblion yn ddigon cyson. O ganlyniad, ar brydiau, mae lleiafrif y disgyblion yn camdreiglo ac yn defnyddio ambell air Saesneg wrth siarad Cymraeg.

Mae gan yr ysgol drefniadau cytûn a chyson i asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn crynhoi'r rhain ar broffil un dudalen ac yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt i gynllunio tasgau dilynol ar eu cyfer. Mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i wella'u gwaith. Clustnodir cyfnodau rheolaidd yn ystod yr wythnos i'r disgyblion hŷn ganolbwyntio ar y cyngor a roddwyd iddynt, ac i wella'u gwaith. Ar adegau priodol, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn golygu bod angen iddyn nhw ddeall yn union beth yw pwrpas y dasg ynghyd â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo. Mae hyn yn annog y disgyblion i ymarfer eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae safon yr addysgu a'r asesu yn rhagorol.

Mae'r staff yn ymdrechu i sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau yn gartrefol, yn hynod liwgar ac yn fannau ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gartrefol a threfnus. Mae gan bob aelod staff ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion a rhoddir ffocws clir iawn ar sicrhau bod pob un yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn, clir a hygyrch i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r gweithdrefnau hyn i adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar ac i ddarparu addysg ddiddorol sy'n ennyn eu diddordeb ac yn mynd i'r afael ag anghenion pob un.

Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn gweithio'n ddiwyd ar y cyd â'r athrawon a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i weithredu ystod benodol o raglenni ymyrraeth i ddisgyblion, sydd o safon uchel iawn. Mae hyn yn galluogi disgyblion sydd ag anghenion penodol i wneud cynnydd cadarn a chyson mewn amrywiol feysydd, sy'n cynnwys eu lles a'u datblygiad emosiynol ac academaidd. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol clir ac effeithiol, sy'n cynnwys targedau synhwyrol, mesuradwy a heriol. Mae staff yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni, gan eu haddasu yn ôl y galw. Mae hyn yn sicrhau bod gan y disgyblion a'r rhieni cymaint o berchnogaeth drostynt ag sydd gan yr athrawon.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi rhoi ffocws clir iawn ar ddatblygu partneriaeth gref ac agored gyda'r rhieni, sydd wedi meithrin ymddiriedaeth lwyr ymhlith y rhan fwyaf ohonynt. Mae'r bartneriaeth hynod arbennig hon wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar les, safonau academaidd a chyfraddau presenoldeb y rhan fwyaf o'r disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Gwneir defnydd synhwyrol o'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth rhieni o ddigwyddiadau'r ysgol a'u hatgoffa am faterion pwysig. Cynhelir nosweithiau hyfforddiant defnyddiol i'w cynorthwyo i gefnogi eu plant mewn gwahanol feysydd, fel dosbarth Cymraeg i'w hybu i siarad yr iaith, a sesiynau rhifedd i'w galluogi i helpu gyda'u gwaith cartref.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r ffocws parhaus y mae staff yn ei roi ar sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu ac ymlacio'u cyrff a'u meddwl ar ddechrau sesiynau dysgu. Mae hyn yn eu galluogi i anghofio am unrhyw bryderon sydd ganddynt, er mwyn iddynt fod yn barod i ddysgu. Mae'r ysgol wedi rhannu'r arfer hon yn llwyddiannus gydag ysgolion eraill ac mae arweinwyr bellach yn rhan o dasg arbennig sy'n datblygu'r arfer hon yn genedlaethol.

Mae'r ffordd hynaws y mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol yn rheolaidd i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd yn effeithiol iawn. Mae'r cyswllt cryf sy'n bodoli gyda'r nyrs, swyddog lles a'r heddlu lleol, er enghraifft yn dylanwadu'n llwyddiannus ar les nifer o ddisgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae trefniadau priodol yn bodoli yn yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion trwy drefnu cyfleoedd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli ac amser cylch. Mae'r gwasanaethau boreol, sy'n aml yn seiliedig ar storïau o'r Beibl neu themâu cyfredol, yn annog disgyblion i fod yn fyfyrgar ac i feddwl am faterion sy'n effeithio arnyn nhw ac eraill. Mae'r ysgol yn croesawu grwpiau o wahanol addoldai lleol i arwain y gwasanaethau hyn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion ysbrydol, crefyddol a moesol. Mae'r profiadau hyn yn eu galluogi i adnabod y gwahaniaeth rhwng 'da a drwg' ac i gydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd o fewn amgylchedd gofalgar a chynhwysol. Mae'n eu cynorthwyo'n werthfawr i dyfu'n ddinasyddion gweithgar a chydwybodol a fydd â'r medrau i arwain mentrau pwysig o fewn eu cymuned, maes o law. Mae'r ethos a'r ewyllys o gydweithrediad yn galluogi'r rhan fwyaf i gyrraedd safonau lles cadarn.

Hyrwyddir datblygiad cymdeithasol, diwylliannol a chreadigol disgyblion yn hynod effeithiol trwy gyfrwng perfformiadau, cystadlaethau, a phrosiectau creadigol. Mae disgyblion ar frig yr ysgol, er enghraifft, yn trafod nodweddion artistiaid o Gymru a'r byd ehangach yn ddeallus. Maent yn cydweithio ag artistiaid lleol yn rheolaidd, ac yn efelychu eu gwaith yn effeithiol iawn. Hyrwyddir hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru yn feunyddiol, sy'n elfennau creiddiol ac effeithiol o holl waith yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth, gyda chymorth llwyr y dirprwy, yn arwain yr ysgol yn hynod effeithiol, mewn modd tawel, diffuant ond cadarn. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i greu cymuned hynod glòs a chynhwysol, sydd wedi cael effaith eithriadol ar

safonau, darpariaeth a lles disgyblion a staff. Mae gan y pennaeth a'r dirprwy weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r ysgol yn uned lwyddiannus iawn, sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. Maent yn llwyddo i rannu hyn yn glir gyda gweddill y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae aelodau eraill yr uwch dîm rheoli yn eu cefnogi'n hynod o effeithiol. Maent yn cynnig cyfeiriad clir a chefnogol i staff ym mhob maes dysgu, ac yn sicrhau bod pob unigolyn yn ymrwymo'n llwyr i gynnal a chodi safonau ac i sicrhau lles y disgyblion.

Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn datblygu'n effeithiol iawn fel tîm. Mae'r athrawon ymroddedig a brwdfrydig yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy, er enghraifft trwy ddod at ei gilydd i drafod materion priodol yn rheolaidd a chynllunio themâu ar y cyd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau, a chreu profiadau eang ac ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae hefyd yn gymorth llwyddiannus i leihau baich gwaith athrawon.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ynghyd ag anghenion proffesiynol unigolion. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol arnynt, ac ar eu harferion addysgu yn y dosbarth. Enghraifft arbennig o hyn yw'r trefniadau cynhwysfawr sy'n bodoli i hyfforddi'r holl staff i ddatblygu ymhellach eu medrau digidol, sy'n eu galluogi i'w defnyddio'n fwy hyderus gyda'r disgyblion. Hyfforddir cynorthwywyr dysgu yn effeithiol i gefnogi disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth hon yn cynorthwyo'r disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella'u medrau llythrennedd, rhifedd a lles. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff ymhellach drwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddiant mewnol sy'n cael eu harwain gan aelodau'r staff a datblygu agweddau o'r cwricwlwm trwy fynychu rhwydweithiau llwyddiannus gydag ysgolion cyfagos. Mae'r staff hefyd yn ymweld â nifer o ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol i rannu ac arsylwi ar enghreifftiau o arfer dda. Trefnwyd ymweliadau niferus ag ysgolion llwyddiannus eraill, er enghraifft, cyn ad-drefnu'r cyfnod sylfaen ddwy flynedd yn ôl.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae'r gweithdrefnau yn arbennig o drylwyr ac yn galluogi arweinwyr i nodi, monitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli'n defnyddio ystod eang o ddata addas yn effeithiol i arfarnu cyflawniadau a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod hinsawdd barhaus o dargedu a herio disgyblion i gyrraedd hyd eithaf eu gallu ac i wneud gwelliannau cyraeddadwy. Mae arweinwyr yn annog safbwyntiau a mewnbwn disgyblion yn barhaus, er enghraifft wrth ddewis cynllun marcio newydd. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion, sy'n gwerthfawrogi bod y pennaeth a'r staff yn ystyried eu barn o ddifrif. Mae cyswllt clir yn bodoli rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn cyfrifoldebau am amrywiol agweddau o feysydd cwricwlaidd a blaenoriaethau gwella. Trwy gydweithio'n llwyddiannus gyda'r uwch dîm rheoli, ac wrth arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau a chynnal teithiau dysgu perthnasol, maent yn chwarae rôl weithredol yng ngweithdrefnau hunanarfarnu a monitro'r ysgol.

Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol iawn i wneud penderfyniadau sy'n gosod cyfeiriad strategol pwrpasol i waith yr ysgol. Enghraifft gref o hyn yw'r modd y mae'r llywodraethwyr yn herio'n gadarnhaol a gwneud awgrymiadau ynglŷn â chynnydd mewn safonau, a'r gorddefnydd o daflenni gwaith. Mae'r corff llywodraethol yn hybu llais y disgyblion yn effeithiol drwy gefnogi eu dyheadau. Maent hefyd yn cefnogi cynlluniau a threfniadau'r ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i ymgymryd â gwahanol weithgareddau.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dynn, er eu bod wedi wynebu sefyllfa ariannol anodd yn ddiweddar. Maent yn gwneud penderfyniadau ariannu effeithlon er mwyn ymateb i anghenion yr ysgol. Mae'r gyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n llwyddiannus iawn, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau llythrennedd a mathemateg ac i ddatblygu lles disgyblion yn hynod effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2018